

DEDDFWRIAETH DDWYIEITHOG: CYFREITHWYR A CHYFIEITHWYR

Darlith Goffa Hedley Gibbard, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

A draddodwyd gan

Yr Athro Thomas Glyn Watkin

Ddydd Mawrth, 5 Awst 2008 yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Fro

Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud ei bod yn bleser a hefyd yn anrhydedd i mi fod yma heddiw i draddodi'r ddarlith yma i Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Rhaid i fi gyfaddef fy mod yn teimlo ychydig fel Daniel yn ffau'r llewod gan fy mod i'n dod fel cyfreithiwr i ddarlithio i chi'r cyfieithwyr ynglŷn â phwnc lle y mae'r arbenigedd a'r profiad i gyd ar eich ochr chi. Ychydig iawn o gymwysterau sydd gennyf i mewn ieithoedd er fy mod i wedi cymryd tipyn o ddiddordeb mewn datblygu cyrsiau gradd ar y cyd gydag ieithoedd modern dros y degawdau diwethaf - graddau yn y Gyfraith ac Eidaleg a Sbaeneg i ddechrau, yng Nghaerdydd ar ddechrau'r wythdegau, wedyn darpariaeth gyda Ffrangeg, Almaeneg a hyd yn oed ar un adeg Siapanaeg, ac yn olaf - ac ar ôl tipyn o ymdrech - gradd anrhydedd yn y Gyfraith a'r Gymraeg ar ddechrau'r ganrif hon.

Datblygais yr un nifer o raddau gydag ieithoedd modern ym Mhrifysgol Bangor yn fy nghyfnod fel Pennaeth Ysgol y Gyfraith yno - heblaw am Siapanaeg - ac wrth gwrs, o'r dechrau ym Mangor, yr oedd yn bosibl datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y Gyfraith gan roi i bob myfyriwr y dewis o gael tiwtorialau yng nghyrsiau craidd y Gyfraith yn ei ddewis iaith.

Ynglŷn â'r Gymraeg, cefais i'r profiad hefyd o weithio fel cynorthwydd cyfreithiol i'r Eglwys yng Nghymru am ddeunaw mlynedd o 1981 hyd at ddiwedd 1998. Yn ôl yr Athro Richard Rawlings yn ei lyfr *Delineating Wales*, ar y pryd dim ond yr Eglwys yng Nghymru oedd â'r profiad o lunio cyfreithiau yn ddwyieithog. Yr oedd y profiad yn ystod y cyfnod hwnnw, yn cydweithio gyda'r Ddr Enid Pierce Roberts, a oedd yn uwch-ddarlithydd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor, yn amhrisiadwy. Heb y profiad hwnnw, ni fyddai wedi bod yn bosibl i mi ymgymryd â'r swydd hon yn Brif Gwnsler Deddfwriaethol Cymru gyda'r cyfrifoldeb o lunio Mesurau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'n bleser hefyd draddodi'r ddarlith yma er cof am Mr Hedley Gibbard. Nid oeddwn yn adnabod Mr Gibbard yn bersonol ond yr wyf wedi clywed llawer amdano a'i waith ar gyfer Cyngor Sir Gwynedd yn ystod y ganrif ddiwethaf. Mae'n eglur bod ei waith, ei esiampl a'i ddylanwad wedi bod yn bwysig iawn i ddatblygiadau ynglŷn â dwyieithrwydd ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae llawer iawn o bobl ym myd cyfieithu wedi siarad gyda fi amdano fe yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae'n addas hefyd fod y ddarlith yma yn deyrnged i Mr Hedley Gibbard oherwydd yr oedd yn gweithio i gyngor sir, yn arloeswr ynglŷn â datblygu dwyieithrwydd yng ngwaith llywodraethau lleol yng Nghymru ac yn datblygu'r sgiliau a'r gwasanaeth o gyfieithu ar y pryd. Mae'n briodol felly oherwydd fy mod i yma heddiw i drafod pethau sy'n ymwneud â byd cyfieithu a chyfraniad awdurdodau lleol Cymru at y gwaith yma. Wrth edrych o gwmpas yr ystafell yr wyf yn gweld nifer o wynebau sydd bellach yn adnabyddus i mi oherwydd ein bod wedi cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae datganoli wedi codi pwysigrwydd dwyieithrwydd yn y Gyfraith ac mewn drafftio deddfwriaeth yn ddwyieithog ar bob lefel yng Nghymru. O dan ddarpariaethau Deddfau Llywodraeth Cymru, rhaid i ddeddfwriaeth a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru fod yn y Gymraeg a'r Saesneg fel arfer.

Ers 1998, cymerwyd camau i ddysgu o brofiad awdurdodaethau eraill o ran deddfwriaeth ddwyieithog, gan astudio arferion yng Nghanada ar y lefel ffederal ac yn rhanbarth Brunswick Newydd yn arbennig. Ond, er gwaethaf ymrwymiad parhaus i ddatblygu drafftio dwyieithog, y realiti yw bod y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth yn cael ei llunio yn ddwyieithog drwy gael ei drafftio yn gyntaf yn Saesneg ac wedi hynny ei chyfieithu i'r Gymraeg, er bod modd gofalu bod y ddau destun yn cyfateb i'w gilydd ar ôl hynny cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei gwneud er mwyn sicrhau bod y testunau yn briodol yn y naill iaith a'r llall.

Er mai'r nod yn y pen draw yw cael drafftwy'r sy'n gymwys i ddrafftio deddfwriaeth yn y ddwy iaith, naill ai ar eu pen eu hunain neu drwy weithio mewn parau, am beth amser i ddod bydd angen tipyn - yn wir cryn dipyn - o gyfieithu cyfreithiol. Mae Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru yn gyfrifol am lunio testun dwyieithog pob Mesur Cynulliad a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â sicrhau ansawdd offerynnau statudol a lunnir gan Weinidogion Cymru, ac ar hyn o bryd caiff ei chynorthwyo yn hyn o beth gan dîm o ieithyddion yn yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol.

Pan ymgymerais i â'r swydd o fod yn Gwnsler Deddfwriaethol i'r Llywodraeth, o ganlyniad i'r profiad a gefais pan oeddwn yn gweithio i'r Eglwys yng Nghymru, yr oeddwn yn ymwybodol o'r ffaith bod dylanwad cyrff fel y Cynulliad a'r Llywodraeth mor gryf fel nad oedd yn bosibl i gyrff eraill wrthsefyll grym eu penderfyniadau hwy ynglŷn â phethau fel terminoleg. Yr oeddwn yn cofio am adeg yn yr Eglwys yng Nghymru pan oedd penderfyniadau wedi cael eu gwneud ynglŷn â therminoleg gywir ac addas ar ôl tipyn o drafodaeth ac ar ôl ystyried y cwestiynau a'r canlyniadau yn ofalus iawn. Ond, weithiau, roedd yn amlwg bod penderfyniadau cyrff eraill, fel S4C er enghraifft, mor ddylanwadol fel nad oedd yn bosibl i'n penderfyniadau ni, hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu hystyried yn drylwyr gan arbenigwyr, allu parhau os oedd y cyfryngau'n penderfynu ar derm gwahanol.

Nid oeddwn i eisiau gweld yr un peth yn digwydd wrth i'r Cynulliad fathu termau wrth ymgymryd â'r gwaith o ddeddfu. Yr oeddwn i hefyd yn ymwybodol o'r ffaith, ar ôl fy nghyfnod ym Mhrifysgol Bangor, ein bod weithiau yn ymgymryd â'r gwaith o greu, er enghraifft, ddeunydd dysgu heb lawer o wybodaeth ynglŷn â beth roedd cyrff eraill yn ei wneud ledled Cymru yn yr un meysydd. Yr oedd hyn yn golygu bod yr un gwaith yn cael ei wneud fwy nag unwaith ac, wrth gwrs, efallai gydag amrywiaeth o ganlyniadau, amrywiaeth o derminoleg a oedd yn gwanhau ac nid yn cryfhau safon y Gymraeg ym maes y gyfraith. Penderfynais felly, i'r graddau yr oedd yn bosibl, sicrhau nad oedd hyn i ddigwydd bellach ynglŷn â'n cynnyrch ni yn y Llywodraeth. I'r perwyl hwnnw ysgrifennais at gyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddechrau gyda'r awdurdodau lleol, er mwyn gofyn iddynt hwy gydweithio â'm swyddfa i yn Llywodraeth y Cynulliad er mwyn sicrhau ein bod ni'n rhannu ein gwybodaeth, rhannu ein profiad a dysgu oddi wrth ein gilydd, er mwyn i'r cynnyrch mewn

terminoleg gyfreithiol fod yn rhywbeth yr oedd cyrff cyhoeddus ledled Cymru yn teimlo eu bod yn ei berchenogi.

Ysgrifennais at bob awdurdod lleol yn ystod haf 2007, ond - fel y clywsoch rai ohonoch chi yn Aberystwyth yn yr Hydref - er mawr siom i fi'n bersonol, ychydig iawn o atebion oedd wedi cyrraedd erbyn diwedd yr haf. Mae'n ddrwg gennyf am unrhyw embaras a grëwyd gan fy ngeiriau yn Aberystwyth y diwrnod hwnnw, ond yr oedd y canlyniad yn un gwerthfawr. Mewn ychydig wythnosau yr oedd atebion wedi cyrraedd oddi wrth y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru ac roedd yn bosibl creu rhaglen o ymweliadau er mwyn i mi drafod y prosiect gyda hwy a symud pethau ymlaen. Yr wyf yn hynod o ddiolchgar am y croeso a gefais ac am y cydweithrediad sydd wedi bod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Erbyn diwedd mis Mehefin eleni, o ganlyniad i hyn, yr oeddwn wedi ymweld â bron pob awdurdod lleol yng Nghymru naill ai un ar y tro neu - yn y gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain - mewn grwpiau o dri, ac wedi dysgu llawer iawn ynglŷn â sut y mae'r gwaith o greu dogfennau cyfreithiol dwyieithog yn cael ei wneud ledled Cymru.

Un o'r pethau mwyaf pwysig sydd wedi codi o'r ymweliadau hyn yw'r ffaith fy mod i wedi dod i adnabod y bobl sy'n gyfrifol am y gwaith pwysig hwn ar hyd a lled y genedl. Os ydy'r bobl sy'n gwneud y gwaith yn adnabod ei gilydd, y mae'n llawer haws cydweithio a deall sut i hyrwyddo prosiect neu berthynas ynglŷn â'r gwaith. Y mae adnabyddiaeth yn cael gwared â chamddealltwriaeth oherwydd, weithiau, adlewyrchu'r cyd-destun y mae unigolion yn ymgymryd â gwaith ynddo y mae dull gwahanol o weithio nid adlewyrchu eu dewis hwy o sut i'w wneud.

O'r adnabyddiaeth yna mae'n bosibl creu, i ryw raddau, undeb o bwrpas, fel y dywedodd rhywun wrthyf, efallai am y tro cyntaf yn hanes y fath ddatblygiadau yng Nghymru. Pwysleisiodd llawer iawn o'r bobl yr oeddwn yn siarad gyda hwy bwysigrwydd clymu cyrff eraill i'r prosiect, cyrff eraill fel Gwasanaeth y Llysoedd, Byrddau Iechyd, yr Heddlu, y cyfryngau - yn enwedig S4C a'r BBC ond hefyd y papurau dyddiol - wrth gwrs, y papur dyddiol Cymraeg pan fydd yn cael ei sefydlu (os bydd un yn cael ei sefydlu) a hefyd y *Western Mail* a'r *Daily Post* er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am y gwaith yn cyrraedd y cyhoedd.

Yr oedd yn glir hefyd o'r dechrau fod yna groeso i'r agwedd sensitif o barchu pawb oedd yn gweithio yn y maes. Clywais am ansensitifrwydd yn y gorffennol, yn enwedig yn y cyfnod cyn i'r Cynulliad gael ei sefydlu ar ddiwedd y 90au. Yr oedd yn glir i ryw raddau fod yna hierarchaeth ynglŷn â chreu terminoleg wedi bodoli am gyfnod er mawr siom i bobl oedd yn gweithio'n lleol. Wrth gofio am waith dyn fel Hedley Gibbard yn ei filltir sgwâr, mae'n amlwg nad yw hierarchaeth o'r fath yn briodol o gwbl yn y math hwn o waith. Oherwydd ei bod yn amlwg bod cyrff fel y Cynulliad, S4C neu, yn y dyfodol, bapur dyddiol Cymraeg yn mynd i ddylanwadu'n drwm ar ddatblygu terminoleg, ni ddylai'r bobl sy'n datblygu terminoleg yn y fath gyrff fethu â chydabod cyfraniadau at y gwaith ar bob lefel ledled Cymru. Dyna yw nod y prosiect yr wyf fi ar hyn o bryd yn gwneud fy ngorau i'w ddatblygu ac y mae'n amlwg hefyd fod llawer gennym ni i'w ddyddu oddi wrth ein gilydd ynglŷn â sut i ddatblygu'r gwaith.

Yn ystod yr ymweliadau, yr oedd yn glir bod yna amrywiaeth o ddulliau o weithio yn cael eu defnyddio gan ein hawdurdodau lleol. I ddechrau, y mae 'na ddewis rhwng

drafftio dogfennau cyfreithiol yn ddwyieithog a'u drafftio mewn un iaith, fel arfer yn Saesneg, ac wedyn eu cyfieithu i'r iaith arall. Os cyfieithu yw'r dewis, y mae'r cwestiwn yn codi a ddylai'r cyfieithu gael ei wneud yn fewnol neu gael ei anfon at gyfieithwyr allanol, ac os y dewis olaf sydd yn cael ei wneud, sut i ddewis y cyfieithwyr allanol a sut i wybod a oes arbenigedd ganddynt ynglŷn â chyfieithu dogfennau cyfreithiol. Wrth gwrs, caiff yr atebion i'r cwestiynau yma eu rhoi ond nid ar sail safon ieithyddol yn unig. Mae cwestiynau ynglŷn ag adnoddau, sut i dalu am y fath waith, weithiau yn cael mwy o ddylanwad na'r cwestiynau ynglŷn â safon.

Atebodd rhai cyrff eu bod hwy'n dibynnu'n gyfan gwbl ar gyfieithwyr allanol, ac yn dibynnu hefyd ar safon eu gwaith - hynny yw, ddim hyd yn oed yn rhedeg unrhyw fath o wiriad i sicrhau bod y ddwy fersiwn yn cyfateb yn gywir. Y mae hyn wrth gwrs yn rhoi llawer o gyfrifoldeb ar ysgwyddau'r cyfieithwyr ac yn gofyn felly am arbenigedd eithriadol ynglŷn â sicrhau safon y gwaith. Yr oedd rhai cyrff eraill yn anfon gwaith at gyfieithwyr allanol ond yn gwirio'r cynnyrch cyn cyhoeddi'r fersiynau. Eto y mae hyn yn galw am arbenigedd, y tro yma ymhlith gweithwyr y corff cyhoeddus oherwydd nid peth hawdd yw gwirio bod dogfen gyfreithiol mewn un iaith yn cyfateb i ddogfen mewn iaith arall mewn modd sy'n gwbl dderbyniol i ofnyion statws y ddogfen.

Mae'r un math o gwestiynau yn codi ynglŷn ag arbenigedd pan fo'r gwaith o gyfieithu yn cael ei wneud yn fewnol hefyd. Eto, yr oedd rhai cyrff yn defnyddio eu cyfieithwyr eu hunain ac yn dibynnu ar eu harbenigedd hwy heb wiriad o unrhyw fath ar y cynnyrch, tra bod eraill yn defnyddio cyfieithwyr mewnol ond yn gofyn i gyfieithwyr mewnol wirio'r cynnyrch er mwyn diogelu dilysrwydd y dogfennau yn y ddwy iaith.

Os cyd-ddrafftio yw'r dewis, nid yw hyn yn osgoi problemau chwaith. Os oes yna gyfieithwyr sydd yn gymwys i ddrafftio is-ddeddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, weithiau gofynnir i arbenigwyr ieithyddol mewnol gyflawni gwiriad ar y cynnyrch er mwyn sicrhau safon eu hiaith ac weithiau hefyd er mwyn sicrhau safon y derminoleg. Y perygl yn y fan hon yw bod cyfieithwyr yn datblygu eu termau eu hunain heb wybodaeth o beth sy'n cael ei wneud gan gyfieithwyr a chyfieithwyr eraill yn lleol neu yn genedlaethol. O ganlyniad, y mae rhai awdurdodau lleol yn anfodlon gadael i gyfieithwyr gyd-ddrafftio dogfennau cyfreithiol er mwyn osgoi'r broblem o amrywiaeth termau sydd yn gallu codi yn sgil yr ymarfer, tra bo eraill yn yr un modd yn ffyddiog bod eu cyfieithwyr wedi datblygu arbenigedd yn eu meysydd a bod hynny ynddo'i hun yn diogelu cysondeb y derminoleg a ddefnyddir ganddynt.

Y dyddiau yma wrth gwrs mae'n bosibl defnyddio meddalwedd i sicrhau cysondeb. Y mae yna raglenni fel *Wordfast* a *Déjà-vu* sydd yn darparu cof cyfieithu. Mae'n amlwg y byddai cyfundrefn gyffredin ynglŷn â'r fath ddarpariaeth yn rhywbeth defnyddiol iawn ar gyfer y dyfodol ond, wrth gwrs, rhaid sicrhau safon popeth sydd yn cael ei ychwanegu at y cof os nad yw'r cof yn mynd i fod yn ddylanwad drwg ar safonau. Nid yw pawb yn cefnogi defnyddio'r fath feddalwedd, gan bwysleisio'r perygl bod y fath feddalwedd yn adnabod geiriau a brawddegau yn unig ond heb wybod ystyr y gair neu'r cysyniad yn ei gyd-destun penodol.

Wrth ddysgu am brofiadau pobl eraill sy'n gweithio yn y maes, yn ogystal â dysgu am y problemau y maent hwy yn eu hwynebu ac yn eu datrys, y mae'n amlwg bod yna rai

cwestiynau sydd angen eu hateb er mwyn gwneud y cam nesaf ar gyfer y dyfodol. Dywedodd llawer iawn o bobl wrthyf yn ystod yr ymweliadau eu bod hwy wedi elwa llawer o drafod cwestiynau cyffredin gydag arbenigwyr eraill yn y maes yn y gorffennol. Mae'n glir bod yna rwydweithiau mewn bod sydd o gymorth i gyfieithwyr Cymru, rhai ohonynt yn rhwydweithiau cenedlaethol, rhai yn rhanbarthol. Dywedodd llawer o bobl fod cyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn fwy aml yn y dyddiau cyn i'r nifer o awdurdodau lleol gynyddu yng nghanol y 90au. Mae'n amlwg hefyd fod y datblygiad yma wedi effeithio ar y ddarpariaeth ynglŷn â dwyieithrwydd mewn rhai llefydd, gyda rhai awdurdodau lleol bellach yn rhannu cyfleusterau cyfieithu gyda'u cymdogion.

Mae'n amlwg hefyd fod yna brinder o gyfreithwyr sy'n medru'r Gymraeg ac yn gallu ymgymryd â'r gwaith o naill ai lunio dogfennau cyfreithiol yn ddwyieithog neu o leiaf o gyfrannu at y broses o greu dogfennau dwyieithog trwy wirio cysondeb dogfennau sydd wedi cael eu cyfieithu. Hyd yn oed os oes yna gyfreithwyr sydd yn medru'r Gymraeg ymhlith staff corff cyhoeddus, y mae diffyg hyder yn rhwystro nifer helaeth ohonynt rhag ymgymryd â'r gwaith. Yr wyf yn gwbl ymwybodol o'r broblem o hyder o ganlyniad i'r profiad a gefais ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor wrth ddatblygu cyrsiau Cymraeg yn y Gyfraith. Yn aml iawn, nid yw myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn teimlo'n ddigon hyderus i ymuno â grŵp sydd yn trafod cwestiynau cyfreithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, y mae hyd yn oed y darlithwyr sydd yn medru'r iaith yn ansicr iawn o'u sgiliau i ddysgu drwy gyfrwng yr iaith. Yn anffodus, yr unig fodd o ddatrys y broblem yma yw annog a chefnogi pobl i wneud y naid. Fel arfer, mewn ychydig amser, maent yn darganfod bod yr hyder yn datblygu a'u problemau'n diflannu ac mae'n dod yn hollol naturiol iddynt drafod pynciau cyfreithiol yn y naill iaith neu'r llall. Eto yma y mae yna angen i fod yn sensitif i'r anghenion yma er mwyn sicrhau bod anogaeth a chefnogaeth yn cyfrannu at y broses o greu cenhedlaeth sydd yn gwbl ddwyieithog yn ei sgiliau cyfreithiol.

Felly, ar ddiwedd y broses yma, beth wyf i'n ei argymhell ar gyfer y dyfodol? Bwriad y prosiect ar y dechrau oedd sicrhau rhannu gwybodaeth rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fy mwriad oedd awgrymu wrth awdurdodau lleol y byddwn i yn Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru yn cysylltu â hwy wrth i ni fynd ati i lunio Mesurau'r Llywodraeth ar gyfer y Cynulliad. Yn aml, y mae'r Llywodraeth yn cael cyfnod o ymgynghori cyn cyflwyno Mesur arfaethedig i'r Cynulliad. Awgrymais y byddai o fudd efallai i'r Swyddfa, yn ystod y cyfnod hwn, godi unrhyw gwestiynau anodd ynglŷn â therminoleg neu gyfieithu a oedd wedi codi wrth ddrafftio'r Mesur. Wedyn, erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, fe fyddai cyfle i'r arbenigwyr ledled Cymru ymateb i'r cwestiynau a'r problemau yma gan ychwanegu unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r derminoleg yr oeddem ni yn y Llywodraeth wedi ei defnyddio. Er na fydd yn bosibl bob amser i dderbyn argymhellion pob unigolyn sydd yn ymateb - oherwydd weithiau mae'n amlwg fe fydd yna sylwadau gwahanol ynglŷn â'r un cwestiwn - fe fydd yn bosibl i ni ymateb ac esbonio pam yr ydym yn gwneud dewis, ac yr wyf yn gobeithio felly y bydd y rhesymau yma hefyd yn ddefnyddiol yn y dasg o greu cysondeb yn ein terminoleg gyfreithiol ar gyfer y genedl.

Mawr obeithiaf hefyd y bydd y Ganolfan Derminoleg newydd y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei datblygu yn gallu cyfrannu at y rhan yma o'r gwaith neu hyd yn oed ei harwain. Fe fydd cyfraniad gan

arbenigwyr o safon ymhob maes y mae Mesurau yn cyffwrdd â hwy yn eithriadol o fuddiol.

Awgrymodd rhai pobl fod y cyfnod o ymgynghori ynglŷn â Mesur braidd yn hwyr i setlo terminoleg. Dywedwyd bod terminoleg yn cael ei defnyddio gan gynghorwyr lleol a phobl eraill cyn gynted ag yr oedd polisi'r Llywodraeth ynglŷn â deddfu yn cael ei gyhoeddi, fisoedd efallai cyn i'r Mesur arfaethedig ei hun ymddangos. Y perygl yw y bydd pobl yn creu ac yn defnyddio terminoleg wahanol i'r derminoleg yn y Mesur arfaethedig ac felly y byddai'n anodd iawn newid i ddefnyddio'r derminoleg gywir maes o law.

Sut felly y gellir sicrhau bod terminoleg ar gael mor gynnar ag sy'n bosibl er mwyn osgoi'r broblem yma? Un syniad, y mae Lowri Williams o Fwrdd yr Iaith wedi ei awgrymu, yw gwneud ymchwil i'r derminoleg y bydd ei hangen ynglŷn â Mesur neu Fesurau yn y cyfnod pan fydd yr *LCO*, yn cael ei ystyried, hynny yw y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol, y gorchymyn sy'n rhoi pwerau i'r Cynulliad i ddeddfu drwy Fesurau yn y dyfodol. Os ydy hi'n bosibl felly i ddweud pa statudau y mae'r pwerau yn yr *LCO* yn eu cyffwrdd, byddai'n bosibl ymchwilio i'r cwestiwn a oes yna derminoleg safonol mewn bod yn y maes neu'r meysydd yna yn llawer cynharach - flwyddyn yn gynharach fel arfer efallai - cyn i'r dadlau ynglŷn â'r Mesur gychwyn.

Yn y ddau achos, wrth fathu termau yn ystod cyfnod ystyried *LCO* ac wrth benderfynu ynglŷn â thermau yn sgil cyfnod o ymgynghori ar Fesur arfaethedig, yr oedd llawer yn cefnogi'r syniad o gael cyfarfodydd o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried y cwestiynau mwyaf anodd oedd wedi codi. Gellir defnyddio rhwydwaith fideo i ryw raddau ar gyfer y fath gyfarfodydd ac, yn y dyfodol, gall y rhan yma o'r gwaith fod yn elfen hollbwysig yng nghyfraniad y Ganolfan Derminoleg newydd sydd ar y gweill.

Awgrymwyd hefyd y byddai'n beth da yn y dyfodol, pan fydd rheoliadau'n gosod y ddyletswydd i greu ffurflenni ynglŷn â rhyw fater, i'r ffurflenni yma gael eu llunio ar ffurf gyffredin er mwyn sicrhau cysondeb ledled y genedl. Hefyd mae yna angen creu rhyw fath o rwydwaith er mwyn rhannu geirfaedd a chronfeydd terminoleg safonol eraill.

Beth am y cwestiynau pwysig eraill ynglŷn â chymwysterau, er mwyn sicrhau bod yna olyniaeth o gyfieithwyr galluog ar gael gydag arbenigedd mewn gwaith cyfreithiol ar gyfer y dyfodol? Ar hyn o bryd nid oes yna gymwysterau perthnasol ar gael i helpu'r sawl sydd yn recriwtio'r fath bobl ar gyfer staff awdurdodau lleol neu Lywodraeth Genedlaethol, nac ychwaith er mwyn helpu'r sawl sydd yn comisiynu gwaith allanol ar gyfer ein cyrff cyhoeddus.

Dros y degawd diwethaf, bu sawl ymgais i fynd i'r afael â hyfforddi cyfieithwyr i ymgymryd â'r gwaith pwysig o lunio deddfwriaeth ddwyieithog ar gyfer y Cynulliad yn gyntaf a, bellach, y Llywodraeth. Fel arfer, byddai ceisiadau yn dod oddi wrth y Llywodraeth am fath ar hyfforddiant nad oedd ysgolion cyfraith prifysgolion yn ei ddarparu neu byddai'r ysgolion cyfraith yn cynnig math ar hyfforddiant nad oedd ei angen ar y cyfieithwyr. Mae'n hen bryd felly i ni geisio dod o hyd i ateb ymarferol sy'n bodloni'r ddwy ochr.

Rhaid llunio a dilysu cwrs sy'n diwallu anghenion cyfreithwyr sy'n dymuno dysgu sgiliau cyfieithu cyfreithiol ac, yn bwysicach na hynny, sy'n diwallu anghenion cyfieithwyr cymwys sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau penodol i weithio mewn cyddestun cyfreithiol. Dylai cwrs o'r fath fod yn gymwys i'w ystyried yn gwrs Datblygiad Proffesiynol Parhaus o'r math sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfreithwyr a hefyd yn cyrraedd dibenion gwirfoddol cyfieithwyr sydd eisiau bod yn ieithyddion siartredig.

Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi bod Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg Prifysgolion Cymru wedi cytuno i gefnogi menter o'r fath. Y gobaith yw penodi Swyddog Prosiect yn ystod y flwyddyn academiaidd 2008-9 i gydlynu'r gwaith o gwmpasu a llunio cwrs ôl-raddedig mewn cyfieithu cyfreithiol sy'n arwain at dystysgrif, diploma neu hyd yn oed M.A.. Heb geisio achub y blaen ar ganfyddiadau'r Swyddog Prosiect, yn ddefnyddol dylai'r cwrs fod yn un sy'n addas i'w astudio'n rhan-amser, sy'n cael ei ddysgu mewn amrediad o leoliadau (gan gynnwys o bosibl Canolfannau Dysgu Gydol Oes), ac yn un y mae'n bosibl i bobl sydd eisoes mewn swyddi ac, o ran hynny, bobl sydd eisoes yn gweithio fel cyfieithwyr deddfwriaethol, ei ddilyn gan gymryd y gwaith y maent eisoes yn ei wneud o ddydd i ddydd i ystyriaeth.

Dylai'r astudiaeth ganfod pa sgiliau sylfaenol y mae angen eu datblygu a sut y mae gwneud hynny. Dylai'r cymhwyster fod o ddefnydd nid yn unig i bobl sy'n gweithio i'r Llywodraeth ond hefyd i'r sawl sy'n dilyn gyrfa mewn awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, yr Heddlu a sefydliadau tebyg eraill.

Byddai angen rhoi ystyriaeth gynnar a gofalus i'r patrwm o ddilysu'r cymhwyster newydd hwn, gan gynnwys model posibl lle byddai nifer o sefydliadau addysg uwch yn ei ddilysu ar y cyd, gan hwyluso'r broses o gynnig y ddarpariaeth mewn amrediad o leoliadau daearyddol. Petai modd dilyn y model yma, a fyddai'n ymateb i agenda Llywodraeth y Cynulliad o ran cydweithio a rhyngweithio sefydliadol, gellid osgoi sefyllfa lle byddai sefydliadau yn cystadlu am yr hawl i ddatblygu'r cymhwyster.

Gallai'r Swyddog Prosiect gael ei leoli yn un o'r prifysgolion, ond y mae hefyd yn bosibl ei leoli yn Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru fel y gall gydweithio â'r Uned Cyfieithu Deddfwriaethol a chyfreithwyr Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r model hwn yn fanteisiol o ran cwmpasu anghenion y proffesiwn. Byddai hynny hefyd yn hwyluso cysylltiad ag adrannau cyfatebol mewn llywodraeth leol yng Nghymru sydd bellach mewn cysylltiad â Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol er mwyn datblygu terminoleg safonol. Fe allai'r cymhwyster fod yn ofynnol neu o leiaf yn ddymunol ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol a bod yn sail i ddatblygu sgiliau proffesiynol ar gyfer drafftwy'r dwyieithog.

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf yn fy swydd bresennol, yr wyf yn gallu edrych yn ôl a dweud iddi fod yn gyfnod cyffrous iawn. Yr wyf yn ddiolchgar iawn am y croeso a dderbyniais wrth ymweld â chyfieithwyr yr awdurdodau lleol ac yr wyf yn edrych ymlaen at gydweithio gyda chi, gyfieithwyr Cymru, yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen hefyd at y flwyddyn nesaf ac at y posibilrwydd o sefydlu cymhwyster o safon mewn cyfieithu cyfreithiol. Yr wyf yn gobeithio hefyd y byddai'r datblygiadau hyn wedi bod o ddiddordeb i'r diweddar Hedley Gibbard ac wedi codi ei galon.

Diolch yn fawr.